OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1160 (Cy. 281)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Tachwedd 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494/A550) ("y gefnffordd") wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y darn o'r gefnffordd*” (“the length of the trunk road”)* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,389 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o bwynt canol y Gyfnewidfa honno;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.** (1) Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn Hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 28 Tachwedd 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.